# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclennan9@icloud.com

MUNUDAU CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AM 7.30 y.h. DDYDD LLUN, CHWEFROR 3ydd, 2020, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, , LLANELIAN YN RHOS .

1. CROESO - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dywedodd fod y Cyngor wedi dioddef colled fawr ym marwolaeth y Cynghorydd Fiona Haf Jones. A gofynnodd i'r aelodau sefyll er cof amdani. Gofynnodd hefyd i'r aelodau gofio am y teulu yn eu gweddîau.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Tudur W. Jones; Gwyndaf O. Roberts; John D, Roberts; Goronwy R. Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.

3. YMDDIHEURIADAU - Dim.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod ef yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio, ac o'r herwydd na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gall ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau a pholisîau cynllunio. NI DDATGELWYD YR UN

5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 6ed, 2020, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.

YMWELYDD Â'R CYNGOR – Mr Tomos Hughes, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Fe groesawodd y Cadeirydd Mr Tomos Hughes i'r cyfarfod. Fe ofynnwyd i Mr Hughes ddod i'r cyfarfod fel y gallai panel grantiau'r Parc Heulol amcangyfrif yn fwy manwl gost diffibriliwr ar gyfer Dolwen. Dywedodd Mr Hughes y byddai'n rhaid i'r aelodau'n gyntaf ddewis pa gabinet a hoffent ar gyfer y diffibriliwr. Roedd dau fath - un gyda chlo am £354, ac un heb glo am £384. Roedd larwm ar y cabinetr heb glo. Eglurodd fod system newydd o fonitro'r offer yn bodoli'n awr, ac y byddai angen rhywun i"w gweithredu. Fe fyddai cost derfynol y cabinet a'r diffibriliwr oddeutu £850, ond fev fyddai'r gost o'u gosod ynn ychwanegol. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â hyd parhad yr offer. Dywedodd Mr Hughes y dylai barhau am 15 mlynedd, Gofynnwyd

hefyd gwestiwn ynglŷn â chost adneyddu batris. Byddai hynny tua £30. Diolchodd y Cadeirydd i Mr. Hughes am fod yn bresennol.

6. MATERION YN CODI

3.19/18(i) Ttyllau ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail. Mae rhif gwaith 00046881 yn cyfeirio.

3.19/18(ii) Asesu cwyn ynglŷn â damweiniau niferus yn y troadau ger Bryn Person. Mae rhif 46292 yn cyfeirio.

7.19/18(v) Llythyr gan Mr Goronwy Davies ynghylch carreg fedd ym mynwent ytr eglwys. Roedd y mater hwn yn dal ar fynd, gyda disgwyl ateb gan y Cyngor Sir oddi wrth Dreftadaeth Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd wrth yr aelodau fod Mr. Hughes, y swyddog treftadaeth, i ffwrdd o'i waith yn sâl.

11.19/18(i) Cyflwr wyneb y ffordd rhwng Nant yr Efail a Pheniarth Bach.

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd ei fod ef a'r Clerc wedi gyrru o gwmpas y ward ac wedi tynnu dros 50 o ffotograffau o'r holl dyllau ffordd a mannau peryglus y rhwydwaith briffyrdd. Roedd wedi cymryd y ffotograffau i'r Cyngor Sir ac wedi cymryd arweinydd y Cyngor i ymweld â'r ward i weld y difrod drosto'i hun.

GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

2.20/7(i) Llythyr gan Abergele Insurance ynglŷn ag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer eiddo'r Clerc. = £31.00. CYTUNWYD ar hynny.

7. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Ionawr 20fed, 2020.

Cyfrif cymunedol ..................................................................£7617.02

Cyfrif busnes ........................................................................£5545.26

I gytuno ar, ac arwyddo'r fantolen ariannol fisol ar gyfer Ionawr 2020.

CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.

8. TALIADAU A DDERBYNIWYD - DIM.

9. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU'r holl eitemau a restrir isod.

i. 2.20/10(i) Cyflog y Clerc........(DU)...................................£ 287.23

ii. 2.20/10(ii) HMRC...(DU). ..............................................£ 71.81

iii. 2.20/10(iii) Cyfieithu (Hanner y gost) .......................£ 15.00 – Siec 200066

iv. 2.20/10(iv) Atebolrwydd Cyhoeddus y Cler........................£ 31.00 – Siec 200067

v. 2.20/10(v) ICO (Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth) .£ 40.00 – Siec 200068

10. CEISIADAU AM GRANT - Dim.

11. MATERION CYNGOR CIONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.

4.16/12(i) Adroddiad ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Roedd y mater hwn wedi cael ei drin o dan 6 uchod.

2.20/12(i) e-bost ynglŷn â symud biniau ailgylchu. NODWYD hyn.

12. MATERION CYNULLIAD CYMRU - DIM.

13. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

2.20/14(i) Roedd matres wedi ei thaflu ar ffordd Dawn i Dŷ'n-y-Wal ger Bryn Ucha.

2.20/14(ii) Cwyn am dyllau ffordd newydd rhwng Tandderwen a Theyrnden.

14. UNRHYW FATER ARALL

2.20/15(i) Cofrestr asedau ar gyfer 2020/2021 i'w harwyddo. GWNAED hyn.

2.20/15(ii) Asesu risg ar gyfer 2020/2021 i'w arwyddo. GWNAED hyn.

2.20/15(iii) Gorchmynion sefydlog i'w harwyddo yn dilyn gohirio cyfarfod Rhagfyr. GWNAED hyn.

2.20/15(iv) Amserlen cyfarfodydd i'w chymeradwyo. CYTUNWYD i GYMERADWYO.

2.20/15(v) Tystysgrif ICO i'w harddangos. Roedd hyn WEDI EI WNEUD.

2.20/15(vi) Cymryd y cais praesept i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Ionawr 24ain, 2029. GWNAETHPWYD hyn, ond dywedodd y Cyngor Sir nad oedd wedi ei dderbyn. Anfonwyd copi electronig.

15. CYNLLUNIO

Adnewyddu ac estyniad yn fferm Pen yr Orsedd, Ffordd Rhos Goch, Glan Conwy. Mr & Mrs James Neale. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

16. MATERION ARCHWILIAD - Dim.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.30 y.h.

CADEIRYDD.......................................................DYDDIAD..................................................